

## 2014 Rhif 3166 (Cy. 321)

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

#### Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 35 i Ffin Cymru/Lloegr, Sir y Fflint) (Gwahardd Traffig Dros Dro a Therfyn Cyflymder o 40 mya) 2014

*Gwnaed*

*24 Tachwedd 2014*

*Yn dod i rym*

*1 Rhagfyr 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o’r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### **Enwi, Dehongli a Chychwyn**

1. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Rhagfyr 2014. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 35 i Ffin Cymru/Lloegr, Sir y Fflint) (Gwahardd Traffig Dros Dro a Therfyn Cyflymder o 40 mya) 2014.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 1 Rhagfyr 2014 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw’r darnau hynny o’r gefnffordd rhwng Cyffordd 35 a ffin Cymru/Lloegr yn Sir y Fflint a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Gwaharddiad a Chyfyngiad**

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

### **Cymhwyso**

5. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a’r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

### **Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig            24 Tachwedd 2014

*R Morgan*

**R MORGAN**

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27: Amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.
- (2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## **YR ATODLENNI**

### **ATODLEN 1**

#### **Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 35 i ffin Cymru/Lloegr.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffyrdd 35, 36 a 36A.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 36.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffyrdd 36 a 36A.

### **ATODLEN 2**

#### **Terfyn Cyflymder o 40 mya Dros Dro**

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.6 cilometr i'r gorllewin o linell ganol tanbont orllewinol cylchfan Cyffordd 35 hyd at drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 35.